**MEMORANDWM CYDSYNIAD OFFERYN STATUDOL**

# Rheoliadau Deddf Peilotiaeth 1987 (Diwygio) 2019

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 30A.2. Mae RhS 30A yn rhagnodi bod rhaid gosod Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol, ac y ceir cyflwyno Cynnig Cydsyniad Offeryn Statudol gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad") os yw un o Offerynnau Statudol (OS) y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru sy'n diwygio deddfwriaeth sylfaenol sydd o fewn cymhwysedd deddf y Cynulliad.

2. Cafodd *Rheoliadau Deddf Peilotiaeth 1987 (Diwygio) 2019* eu gosod gerbron Senedd y DU ar 4 Hydref 2019 ac maent bellach yn cael eu gosod gerbron y Cynulliad. Gellir gweld y Rheoliadau yn: *http://www.legislation.gov.uk/uksi/2019/1305/made*

## Crynodeb o'r Offeryn Statudol a'i amcan

3. Amcan yr OS yw diweddaru'r diffiniad o 'EEA State' yn Neddf Peilotiaeth 1987. Mae'n ymwneud â derbyn cymwysterau gan wladwriaethau sy'n rhan o Gytundeb yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE). Fel y'i drafftiwyd ar hyn o bryd, nid yw'r diffiniad o Wladwriaeth AEE yn Neddf Peilotiaeth 1987 yn cynnwys gwladwriaethau a ddaeth yn rhan o Gytundeb yr AEE ar ôl mis Mawrth 2003 pan fewnosodwyd y diffiniad yn y Ddeddf.

4. Mae'r OS a'r Memoranda Esboniadol cysylltiedig i'w gweld yma:

   http://www.legislation.gov.uk/uksi/2019/1305/memorandum/contents

5. Mae'r OS hwn yn diwygio'r ddeddfwriaeth a ganlyn:
   - Deddf Peilotiaeth 1987

## Y ddarpariaeth berthnasol sydd i'w gwneud gan yr OS

6. Y ddeddfwriaeth sylfaenol sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad ac sy'n cael ei diwygio gan yr OS drafft yw **Deddf Peilotiaeth 1987**.

7. Y ddarpariaeth berthnasol yn yr OS yw rheoliad 2.

8. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y darpariaethau a ddisgrifir uchod yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau eu bod yn berthnasol i 'beilotiaeth ddatganoledig', hynny yw peilotiaeth

   a. sy'n ymwneud â harbwr sydd wedi'i leoli'n gyfan gwbl yng Nghymru nad yw'n borthladd ymddiriedolaeth a gedwir yn ôl; ac

b. a ddarperir o fewn awdurdodaeth peilotiaeth nad yw'n ymestyn y tu hwnt i Gymru.

9. Mae gan y Rheoliadau y mae'r Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol hwn yn ymwneud â hwy rychwant tiriogaethol y DU.

10. Mae'r OS y mae'r Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol hwn yn ymwneud ag ef wedi ei osod gerbron Senedd y DU o dan y weithdrefn negyddol, a bydd yn dod yn gyfraith yn awtomatig oni bai y bydd un o aelodau'r naill Dŷ neu'r llall yn Senedd y DU yn gwrthwynebu hynny. Os na fydd unrhyw wrthwynebiad o'r fath, byddai'r darpariaethau sy'n diwygio'r ddeddfwriaeth sylfaenol y cyfeirir ati yn y Memorandwm hwn yn dod i rym ar 26 Hydref 2019.

**Pam y mae'n briodol i'r OS wneud y ddarpariaeth hon**

11. Fel y nodwyd o dan baragraff 3, mae angen gwneud diwygiadau i gywiro hen gyfeiriadau at gyfraith Ewropeaidd cyn i'r DU ymadael â'r UE.

12. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn briodol ac yn gymesur i ymdrin â'r diwygiadau hyn yn y Rheoliadau hyn. Mae'r newid a wnaed yn un hollol dechnegol ac annadleuol, ac nid oes unrhyw newid i bolisi.

13. Diwygir y diffiniad o "EEA state" drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi'i ddynodi at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 mewn perthynas â mesurau sy'n ymwneud â thrafnidiaeth forol. Fodd bynnag, nid yw Gweinidogion Cymru wedi'u dynodi mewn perthynas â mesurau o'r fath, ac felly ni allent wneud y diwygiad hwn.

**Ken Skates AC**
**Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth**
**Rhagfyr 2019**